**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (114)**

**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 26 Ionawr 2005**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio - *Ni chyflwynwyd cynnig***

**......................................**

**2.00pm**

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**......................................**

**2.38pm**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

**......................................**

**3.07pm**
**Pwynt o Drefn**
**Jocelyn Davies, o dan Reol Sefydlog 2.4, ar hysbysu'n brydlon ynghylch penodi Gweinidogion a dyrannu cyfrifoldebau. Nododd y Llywydd bod rhestr ddiwygiedig o gyfrifoldebau wedi'i e-bostio at yr Aelodau yn y Siambr.**

## Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair

## 3.10pm

## Dadl ar Gynllun yr Ail Gynnig

NDM2266 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r hyn a wnaed i fyrhau amseroedd aros ers cychwyn cynllun yr ail gynnig ym mis Ebrill 2004;

2. Yn cymeradwyo penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fyrhau'r cyfnod aros yn y cynllun o 18 i 12 mis erbyn 31 Mawrth 2005;

3. Yn cydnabod y bydd rhai cleifion yn dal i benderfynu dewis derbyn gofal gan eu Hymddiriedolaeth leol;

4. Yn llongyfarch pawb sy'n gysylltiedig â'r cynllun am ei roi ar waith gydag egni, ymrwymiad a sylw gofalus i anghenion ac amgylchiadau unigolion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac yn ei le rhoi:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau brys i leihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad at y gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am gyfnodau aros sydd yn dangos hyd y cyfnod aros ar ôl cyfeirio gan y meddyg teulu.

3.Yn mynegi pryder bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu â rhoi ar waith fentrau ar gyfnodau aros sy’n cynnig gwerth da am arian a chwtogi cynaliadwy yn y cyfnodau aros.

4. Yn gresynu’r ffaith na fu strategaeth gyffredinol eglur i gwtogi’r cyfnodau aros drwy Gymru.

5. Yn galw am roi ar waith fesurau i sicrhau bod cleifion sy’n derbyn triniaeth mewn lleoliadau amgen o dan Gynllun yr Ail Gynnig yn derbyn y gofal parhaus gorau posibl ar ôl y driniaeth.

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

Yn credu bod arafwch cynllun yr ail gynnig yn y flwyddyn gyntaf y bu ar waith yn bwrw amheuaeth ar allu'r cynllun fel y mae ar yn o bryd i gyflawni targedau'r Llywodraeth.

**Gwelliant 3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1 ychwanegu 'diffyg yn' ar ôl ‘nodi'.

**Gwelliant 4. David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu i osod yr un targed o gyfnod aros o 18 wythnos â Llywodraeth y DU erbyn 2008.

**Gwelliant 5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Llafur y Cynulliad i gyhoeddi'r holl restri aros, gan gynnwys y niferoedd sy'n aros o'r pwynt cyfeirio a'r holl rai ar gyfer gweithdrefnau diagnostig, er mwyn hwyluso dadl lawn ar achosion rhestri aros yng Nghymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 15; Ymatal 10; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Y cynnig,**
O Blaid 30; Ymatal 0;Yn erbyn 25; Cyfanswm 55

**Derbyniwyd y cynnig,**

....................................

**4.05pm**

**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty**

**NDM2265 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.12:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty ar gyfer 2003-04, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 41

**Derbyniwyd y cynnig**

....................................

**4.33pm**

**Cynnig i gymeradwyo Cod Ymddygiad Pwyllgor y Ty**

**NDM2264 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.14:

Yn cymeradwyo'r Cod Canllawiau i Aelodau Pwyllgor y Ty, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Derbyniwyd y cynnig**

....................................

**4.35pm**

**Dadl fer**

**NDM2263 Owen John Thomas (Canol De Cymru): Pryd bydd 'Iaith Pawb' yn Iaith Pawb / When will**

**'Iaith Pawb' be Everybody's Language**

......................................

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.58pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 1 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 25 Ionawr 2005**

**Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3422**
**Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7 (Cymru 2004) Neilltuo arian i Awdurdodau Lleol ar gyfer cael gwared ar oergelloedd cartref - LD3423**
**Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3418**

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 25 Ionawr 2004**

**LC1007 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3419**
**LC1009 - Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 - LD3420**
**LC1010 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005 - LD3421**